

Julie Boothroyd
Prif Swyddog - Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Brif Swyddog,

Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Fynwy

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 22 Chwefror a 26 Chwefror 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch y modd y mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig.

Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein llinellau ymholi yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym wedi cysoni ein canfyddiadau â'r pedair egwyddor: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud ei fwriad strategol mewn perthynas ag ymateb i bandemig COVID-19 (y pandemig) yn glir. Ar ddechrau'r pandemig, cyflwynodd yr awdurdod lleol ddiben diwygiedig ac wyth nod strategol newydd er mwyn rhoi eglurder a sicrhau atebolrwydd drwy gydol y cyfnod. Mae hyn yn cynnwys nod i helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed ac oedolion y mae angen cymorth arnynt. Mae'r arweinwyr wedi cynnal trefniadau i oruchwyllo'r sefyllfa newidiol o ran COVID-19, gan arwain at gynlluniau clir i fynd i'r afael â'r materion a gyflwynwyd. Mae hyn wedi arwain at ymarfer creadigol ac ymatebol. Mae'r uwch-reolwyr yn parhau i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r hyn sy'n gweithio'n dda a ffyrdd gwahanol o weithio o ganlyniad i'r pandemig, ac maent yn bwriadu datblygu'r rhain. Gwelsom ddiwylliant calonogol o staff yn cydweithio tuag at yr un nod cyffredin. Cafodd hyn ei grynhoi gan un aelod o'r staff a soniodd am ddiwylliant "*pawb yn helpu ei gilydd*" yn Sir Fynwy.

Fel mewn sawl cyngor arall, mae'r awdurdod lleol yn gweld ac yn rhagweld cynnydd yng nghymhlethdod yr angen a'r galw am wasanaethau. Maent yn edrych tua'r gorwel ac mae uwch-arweinwyr wedi dechrau gwaith ar gwmpasu anghenion y gymuned yn y dyfodol. Maent yn parhau i gydweithio â phartneriaid i feithrin a chefnogi cadernid cymunedol.

Dyweddodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod yr awdurdod lleol wedi cadw mewn cysylltiad â nhw drwy gydol y pandemig. Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn defnyddio e-bost, WhatsApp, cyfarfodydd fideo, cynnal ciniawau rhithwir a phicnics, fel ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â phobl ac ymgysylltu'n ddiogel â nhw.

Roedd y bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan eu cynghorwyr personol. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi cael gliniaduron i'w helpu i gadw mewn cysylltiad, gan leihau achosion o deimlo'n ynysig a'u helpu i barhau â'u hastudiaethau yn ystod y pandemig. Gwnaethant ddisgrifio'r ffordd roeddent wedi cael cymorth i ddod o hyd i lety, cyflogaeth neu barhau ag addysg.

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn rhagweithiol o ran ei ymateb i'r heriau a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig. Rhoddwyd systemau ar waith yn gyflym er mwyn cefnogi trefniadau gweithio ystywyth a gweithio o bell, lle y bo'n bosibl. Lle y bo angen, roedd cyswllt wyneb yn

wyneb â phobl wedi parhau, yn amodol ar asesiad risg, a darparwyd cyfarpar diogelu personol (PPE) i'r staff.

Dyweddodd y staff wrthym y gallant reoli eu llwythi gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr a'u cydweithwyr i gyflawni eu swydd. Gwnaethant ddweud bod y rheolwyr wedi bod yn ymatebol ac yn weladwy yn ystod y pandemig. Ar y cyfan, gwelsom fod morâl y staff yn dda iawn.

Clywsom am y ffordd yr oedd y gwaith o ddatblygu'r gweithlu wedi cael ei gynnal cymaint â phosibl yn ystod y pandemig. Roedd cyfleoedd hyfforddi wedi parhau a defnyddiwyd nifer o lwyfannau digidol er mwyn galluogi'r staff i fanteisio ar hyfforddiant ar-lein. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu a datblygu i'r staff drwy gylchlythyrau wythnosol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i ymgorffori dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau yn llawn. Yn y gwasanaethau i oedolion, ceir ffocws ar drawsnewid ymarfer drwy ddull o weithio sy'n seiliedig ar gydberthnasau a lleoliad.¹ Mae gwaith yn mynd rhagddo i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n seiliedig ar leoliad ar gyfer gweithio ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector, a gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol ac ati, gyda'r nod o gyflawni dull gweithredu cwbl integredig sy'n seiliedig ar weithio gyda chymunedau ac ar ran y bobl yn y cymunedau hynny.

Yn y gwasanaethau plant, mae gwaith yn mynd rhagddo i roi dull gweithredu ar waith sy'n cyfuno fframwaith asesu risg â dull cyfathrebu cydweithredol.

Ar y cyfan, gwelsom fod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed, bod eu dewisiadau'n cael eu parchu a bod y bobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt yn bersonol yn rheolaidd. Roedd pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd y 'Cynnig Rhagweithiol' Cymraeg yn cael ei hyrwyddo. Roedd ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a welsom yn amrywio. Nid oedd rhai o'r ddogfennaeth a welsom bob amser yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud. Gwelsom rai enghreifftiau lle y byddai ffocws mwy penodol ar gryfderau wedi bod o fudd o ran rhoi trosolwg cyfannol o'r unigolyn a'i amgylchiadau unigol.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Mae gan uwch-reolwyr a swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil plant sy'n derbyn gofal a gwybodaeth dda am hyn, ac maent wedi ymrwymo'n gryf i'r agenda ataliol. Clywsom fod cymorth da ar gyfer rhianta corfforaethol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol, ac roedd hyn yn amlwg yn adroddiadau'r pwyllgor craffu a welwyd.

Clywsom am y ffordd yr oedd y tîm Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd yn gweithio gyda phlant a oedd ar drothwy gofal, gan roi cymorth dwys i blant a'u teuluoedd i helpu'r plant i barhau i fyw gyda'u teulu, lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd yr ymrwymiad i barhau i ddatblygu gwasanaethau i atal plant rhag cael eu derbyn i wasanaethau gofal yr awdurdod lleol yn amlwg yn adroddiadau'r pwyllgor craffu a welwyd.

¹ Mae'r awdurdod lleol yn disgrifio gweithio sy'n seiliedig ar leoliad fel ffordd o weithio sy'n adeiladu rhwydwaith o gymorth cymunedol er mwyn helpu pobl i aros mewn cysylltiad â phethau sy'n bwysig iddynt, gan gefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Drwy ddwyn ynghyd amrywiaeth o asiantaethau sydd â diben a rennir o gefnogi llesiant pobl, mae'n eu galluogi i rannu sgiliau, arbenigedd, amser a chynnyddu nifer y cyfleoedd i bobl fanteisio ar gymorth cymunedol heb fod angen gwasanaethau ffurfiol arnynt.

Mae anghenion y gofawlyr yn cael eu hystyried, eu hasesu a'u dogfennu ar wahân i anghenion yr unigolyn sy'n derbyn y gofal. Gwelsom enghreifftiau o'r ffordd y mae gofawlyr wedi cael eu cefnogi yn ystod y pandemig. Dywedodd y darparwyr wrthym am y ffordd y maent wedi cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol *"i gefnogi gofawlyr â'r hyn sydd ei angen arnynt mewn ffordd greadigol a hyblyg."* Gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi gallu addasu a newid eu gwasanaeth ar fyr rybudd er mwyn cefnogi gofawlyr mewn ffordd sy'n wahanol i'r cynlluniau cyflenwi gwasanaeth arferol; er enghraifft, gwaith allgymorth fel nad oedd gofawlyr *"yn colli cyfle i gael egwyl."*

Yn ystod y pandemig, roedd y gwaith o geisio nodi gofawlyr, gan gynnwys gofawlyr ifanc, drwy'r rhwydweithiau cymunedol arferol wedi bod yn heriol i'r awdurdod lleol. Nododd y staff y ffordd y gallai hyn arwain at argyfwng yn rôl y gofawlyr ac felly gwnaethant gymryd camau i adfywio tudalen Prosiect Gofawlyr Sir Fynwy ar Facebook er mwyn tynnu sylw ar y cymorth sydd ar gael i ofawlyr. Crëwyd rôl gweithiwr asesu gofawlyr ifanc a gofawlyr sy'n oedolion ifanc hefyd er mwyn atgyfnerthu'r gwasanaeth a ddarperir i ofawlyr.

Gwelsom enghreifftiau o'r defnydd o eiriolwyr wrth hwyluso llais yr unigolyn. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd eiriolaeth yn amlwg nac wedi cael ei ategu gan gytundeb ynghylch a oedd angen eiriolaeth. Yn ogystal â'r ffaith bod cynnig a darparu eiriolaeth yn bwysig o ran sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed, mae hefyd yn helpu i sicrhau bod hawliau'r bobl yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn.

Atal – Gwnaethom ofyn I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Gwelsom ddull integredig a chadarnhaol o ymdrin â diwylliant atal drwy gydweithio, seilweithiau cefnogol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol a systemau cyflenwi cysylltiedig.

Roedd yr awdurdod lleol wedi sefydlu trefniadau 'drws ffrynt', a dywedodd y staff fod y trefniadau hyn yn ymatebol, yn gymesur ac yn dangos arbenigedd mewn perthynas â gwasanaethau ataliol.

Gwelsom fod y gwaith o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn parhau i gynyddu ledled Sir Fynwy, gyda nifer y pwyntiau mynediad yn ehangu yn y sector gofal cymdeithasol ac iechyd, a sectorau eraill hefyd.

Yn y gwasanaethau plant, gwnaethom nodi bod y panel cymorth cynnar yn enghraifft dda o'r ffordd y mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi ymdrechu i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir. Mae hyn yn helpu i uwchgyfeirio anghenion, lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol, a gwella ansawdd taith y plentyn/teulu drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y panel amlasiantaeth yn canolbwyntio ar y canlyniadau gorau ar gyfer y plentyn a'i deulu ac yn nodi'r gwasanaethau/cymorth mwyaf priodol i'r plentyn a'i deulu. Mae'r panel yn defnyddio dull 'dim drws anghywir' amlasiantaethol cadarnhaol o gefnogi teuluoedd.

Gwelsom fod llinell cyngor a chymorth rhianta wedi cael ei sefydlu, a rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, roedd 154 o bobl wedi ffonio'r llinell. Roedd Cyngor Rhithwir ar Awtistiaeth a Gwasanaeth Ar-lein hefyd wedi cael eu sefydlu, a oedd yn gydweithrediad rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) a'r awdurdod lleol. Mae'r rhain yn ddwy enghraifft gadarnhaol o wasanaethau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig er mwyn cefnogi llesiant pobl.

Ar ddechrau'r pandemig, roedd yr awdurdod lleol wedi cydweithio â'r Tîm Partneriaethau a Datblygu Cymunedol er mwyn sgrinio pobl sydd wedi'u cynnwys yng nghronfa data'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion cyn cysylltu â nhw er mwyn canfod a oedd angen unrhyw gymorth arnynt i gasglu bwyd neu feddyginiaeth. Cysylltwyd â phobl a oedd wedi bod mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol yn flaenorol a'r bobl hynny a oedd ar y rhestr warchod. Cysylltwyd â bron 3,000 o bobl dros gyfnod o bythefnos/tair wythnos. Defnyddiodd y tîm grwpiau o wirfoddolwyr er mwyn rhoi cymorth. Mae hon yn enghraifft dda o nodi a deall anghenion pobl, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn diwallu'r anghenion hyn yn ystod y pandemig.

Gwelsom a chlywsom y modd roedd gweithwyr proffesiynol amrywiol yn y timau oedolion integredig yn cydweithio i gefnogi llesiant a diogelwch y bobl. Gwelsom dystiolaeth o gyfarpar pwrpasol unigol yn cael ei ddarparu i gefnogi annibyniaeth, llesiant a diogelwch y bobl. Roedd hyn yn galluogi'r bobl i gael eu cefnogi gartref, gan osgoi'r angen i fynd i'r ysbty neu ofal preswyl lle bynnag y bo'n bosibl.

Ar ôl edrych ar y ffeiliau achos, gwelsom, ar y cyfan, fod ymyriadau amserol a chymesur i gefnogi'r gwaith o atal anghenion a risgiau rhag gwaethygu, gan ystyried dymuniadau unigol. Dywedodd ymarferwyr o'r gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant wrthym fod ffocws ar wasanaethau ataliol yn yr awdurdod lleol, a bod adnoddau cam-i-lawr a chymunedol ar gael i gefnogi llesiant a diogelwch y bobl.

Mae plant sy'n wynebu risg bosibl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu gamfanteisio troseddol yn cael eu hamddiffyn gan ymyriadau amlasiantaeth rhagweithiol. Canolbwyntir ar leihau'r risg a helpu plant i adnabod arwyddion camfanteisio fel y gallant amddiffyn eu hunain yn well. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod achosion o gamfanteisio ar blant yn cael eu hadnabod yn well, ac mae'n gweithio i godi proffil ac ymateb i gamfanteisio troseddol. Gwelsom fod nifer y plant y nodwyd eu bod yn wynebu risg bosibl o rywun yn camfanteisio arnynt wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 33 o blant yn cael eu nodi yn ystod y cyfnod o 12 mis o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020, a 39 o blant yn cael eu nodi yn ystod y cyfnod o chwe mis o fis Ebrill 2020 i fis Medi 2020.

Mae'r broses o recriwtio gofaluwr maeth wedi parhau drwy gydol y pandemig, yn yr un modd ag y mae'r gwaith rhanbarthol o gynyddu nifer y lleoliadau i blant. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei drefniadau 'Pan fydda i'n barod'. Datblygwyd gweithgor gyda phartneriaid tai er mwyn ystyried anghenion cymorth a llety pobl ifanc a byddwn yn parhau i fonitro'r maes hwn.

Partneriaeth ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ac yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu anghenion a hyrwyddo llesiant, yn unol â deddfwriaeth.

Ar lefel unigolyn, gwelsom enghreifftiau o gydberthnasau gwaith da rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n cael gofal a/neu gymorth. Roedd yr ymarfer yn ymddangos yn barchus a gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i ddeall amgylchiadau'r bobl a helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol eu hunain.

Mae ymrwymiad clir i gydweithio ym mhob rhan o Sir Fynwy. Clywsom gan gynrychiolwyr o'r sector iechyd, yr heddlu, addysg a'r trydydd sector a oedd yn siarad yn gadarnhaol iawn am y cydberthnasau a'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.

Gwelwyd tystiolaeth o bartneriaethau effeithiol yn y ffeiliau achos a welsom ac yn ystod y cyfarfodydd roeddent yn bresennol ynddynt. Gwelsom ymrwymiad a rennir a chydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner ar lefel weithredol ar draws y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion. Roedd pwyslais cryf ar ddisgyblaethau proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd. Roedd adnoddau o amrywiaeth o ffynonellau yn cael eu cysoni a'u defnyddio i ddiwallu anghenion personol. Gwelsom y ffordd yr oedd sefydliadau partner yn cefnogi'r gwaith o gynllunio gofal a chymorth a phrosesau diogelu.

Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol ac yn brydlon gan asiantaethau; roedd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i feithrin dealltwriaeth o amgylchiadau'r bobl ac roedd hyn yn arbennig o bwysig wrth ymateb i risg.

Roedd y darparwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y cymorth a gawsant gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y darparwyr yn nodi eu bod wedi cael cyngor a chymorth amserol, bod y dulliau cyfathrebu wedi bod yn dda a bod cyfarfodydd cadarnhaol wedi cael eu cynnal â'r awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Gwnaethant ddweud wrthym fod yr awdurdod lleol wedi parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cymorth effeithiol a diogel i blant ac oedolion yn ystod y pandemig. Gwnaethant ddweud bod diwylliant o gydweithio a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd. Clywsom am y ffordd yr oedd cydberthnasau wedi cael eu hatgyfnerthu yn ystod y pandemig.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi parhau i arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Ar lefel unigolyn, gwelsom ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw mewn cysylltiad â phobl, gydag ymweliadau a chyfarfodydd statudol yn cael eu cynnal yn rhithwir, ond hefyd rywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb a aseswyd ar gyfer risg lle y bo angen ac fel y bo'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu datblygu mewn ffordd amserol a'u hadolygu yn unol â gofynion. Ar y cyfan, gwelsom ymatebion prydlon i unrhyw risgiau a nodwyd.

Gwelsom y ffordd yr oedd y trefniadau ar gyfer mesur canlyniadau personol yn cael eu hymgorffori yn y timau gofal cymdeithasol i oedolion. Mae ansawdd a chynnydd y gwaith o gofnodi canlyniadau personol yn cael eu monitro er mwyn sicrhau y gall hyn ddatblygu i fod yn ddull mwy cadarn o fesur cynnydd yn y dyfodol. Yn y gwasanaethau plant, dywedwyd wrthym am y ffordd yr oedd yr 'adnodd cynnydd a wnaed' yn cael ei ddefnyddio i fesur ac olrhain cyflawniadau.

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn deall pwysigrwydd ymyriadau amserol a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn brydlon ac maent yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r cynnydd yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i'r pandemig wedi arwain at restrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau, er enghraifft therapi galwedigaethol ac ailalluogi. Roedd system ar waith i reoli a blaenoriaethu atgyfeiriadau. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bregusrwydd y sector gofal cymdeithasol ac argaeledd gofal, yn enwedig cymorth cartref, fel risg allweddol. Mae'r pandemig wedi ychwanegu mwy o gymhlethdod i faes a oedd eisoes yn heriol. Mae'r sector gofal cartref yn Sir Fynwy yn parhau i fod dan bwysau sylweddol. Mae'r awdurdod lleol yn wynebu heriau penodol o ganlyniad i natur wledig a demograffeg y sir. Cyn y pandemig, bu'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu ffyrdd gwell o greu ffordd ymlaen gynaliadwy. Bu'n rhaid atal y gwaith hwn am y tro o ganlyniad i'r pandemig a nodwyd ei fod yn fater o flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn parhau i fonitro'r maes hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr angen i gynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Mae'n ystyried sut y gall ddileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Mae'r hwb diogelu sydd newydd gael ei roi ar waith a'r gwaith o atgyfnerthu'r tîm diogelu oedolion yn ddatblygiadau cadarnhaol o ran hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch y bobl. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â nifer yr ymholiadau diogelu oedolion sy'n cael eu cwblhau o fewn saith diwrnod, trefniadau cofnodi dadansoddiad risg, prydlondeb a goruchwyliaeth ymchwiliadau nad ydynt yn rhai troseddol.

Nid oedd trefniadau goruchwyllo gan reolwyr yn amlwg yn y cofnodion diogelu oedolion a welwyd. Dywedwyd wrthym fod cynllun ar waith i ddatblygu data fel y gellir monitro trefniadau goruchwyllo oedolion, ac adrodd arnynt, yn gywir.

Roedd trefniadau rhannu gwybodaeth a chyfranogiad amlasiantaethol priodol yn amlwg yn gyson yn y ffeiliau diogelu a welsom.

Roedd yr ymyriadau diogelu a welwyd yn y gwasanaethau plant yn dangos tystiolaeth bod gwaith sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei gynnal yn brydlon er mwyn datblygu dealltwriaeth o fywyd y plentyn. Gwelsom fod trefniadau panel effeithiol yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a goruchwyllo.

Dull:

- gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol
- gwnaethom siarad â phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pum person ifanc a oedd wedi gadael gofal
- gwnaethom edrych ar 35 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal 10 o gyfweiliadau olrhain achosion â staff
- gwnaethom gyflwyno arolygiadau i'r canlynol: pobl a oedd wedi cael profiad o ofal a chymorth, darparwyr, sefydliadau trydydd sector, staff, gweithwyr gofal ieuchyd
- aethom i'r panel cymorth cynnar
- aethom i gyfarfod darparwyr gwasanaethau oedolion
- aethom i gyfarfod bwrdd partneriaeth gwasanaethau integredig Sir Fynwy
- gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o'r heddlu, yr adran addysg a'r trydydd sector

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y gwiriad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru